

papur



priorddy



**Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
aur y byd na'i berlau mân,
gofyn 'rwyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.**

Daniel James (Gwrysoydd) 1847-1920 Caneuon Ffydd: 780

***Dewiswyd gan Eirlys Davies, Tir Ysgawen, Llangynnwr
Gweler y tu mewn am ei rheswm dros ei dewis***

**Rhifyn 311
PAPUR MAI 2018**

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

Cryfach na'r Stormydd

SUPERHERO! Oes gennych chi un o'r rheiny tybed?! Mae cofnod cyntaf y term Saesneg *superhero* yn mynd yn ôl i'r flwyddyn 1917 credwch neu beidio! Datblygodd llinach yr arwyr gyda threigl y blynyddoedd gan roi i'n comics, ein setiau teledu, ein ffilmiau a bellach ein gemau cyfrifadurol a'n *hapiau* genedlaethau o gymeriadau'n meddu ar bwerau goruwchnaturiol - pob un ohonynt yn llwyddo, yn y pen draw, i orchfygu'r gelyn ac achub y byd.



Pwerau

Byddai'r *superheroes* gan amlaf yn gwisgo dillad arbennig a fyddai'n atal eraill rhag eu hanabod. Ie, rhai sy'n dueddol o guddio ydynt. Os yw *superheroes* yn dod mewn gwisgoedd gwahanol, gwyddom yn rhy dda fod pwerau'r byd hefyd yn dod mewn gwisgoedd gwahanol gan gwato y tu ôl i fygydau gwleidyddol, economaidd a militeraidd i enwi ond un neu ddau ohonynt, a symud yn llechwraidd yn ein byd. Addawant lawer, ond dinistriant fwy. A'r rhyfeddod mwyaf oll yw'r ysfa sydd gan rai i gofleidio'r pwerau hyn a'u meddiannu'n llwyr gan eu gwneud yn eiddo iddynt.

Daw pwerau dinistriol hefyd mewn gwisgoedd trychinebau naturiol, er efallai ddim cweit mor naturiol erbyn hyn, gan i ni ddysgu bod gan bob un ohonom ran yn argyfwng newid hinsawdd y byd - argyfwng y mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn ymgyrchu drosto ers blynyddoedd.

Gan ein bod ar drothwy Wythnos Cymorth Crisntogol 2018 hoffwn longyfarch yr elusen am greu ffilm mor arbennig yn y Gymraeg ar gyfer y genhedlaeth iau i gyd-fynd â'u hapêl flynyddol. Ffilm sy'n agor yn llawn cyffro ac yn hoelio sylw'r ifanc (ac ambell un hŷn!) yn syth - '*mewn galactsi agos iawn iawn mae 'na blaned hynod*'.



Ar y blaned hon, sy'n llawn pwerau drwg, mae dau *superhero* ifanc sy'n byw yn Haiti o'r enw Zaza a Jeffthre. Dau, er yn ifanc, sydd wedi goroesi rhai o rymoedd cryfa'r ddaear -

daeargryn a chorwynt, ac wedi llwyddo i ailadeiladu eu cartrefi wedi dinistr y trychinebau naturiol hyn. Cawn hanes tri arall o Haiti sydd hefyd yn ffocws Apêl Cymorth Cristnogol eleni, tri y cawn ein hannog i sefyll ysgwydd yn ysgwydd â nhw wrth iddynt geisio ailadeiladu eu bywydau.

Cryfder

Ond yn ôl at ffilm y plant - *Cryfach na'r Stormydd*. Mae'n cymryd tipyn o nerth i fod yn gryfach na storm. Rwy'n aml yn meddwl am y coed bytholwyrdd a oedd yn tyfu ar waelod yr ardd yng nghartref fy rheini. Safent yno'n dalsyth a chryf drwy bob tywydd. Er i'r glaw daranu yn eu herbyn a'r gwynt geisio'u diwreiddio mewn aml i storm aeafol, ac er iddynt blygu dan y pwysau, eto, roeddent yn llwyddo bob amser i sefyll yno'n gadarn beth bynnag fyddai'n eu bygwth. Rydw i'n 'nabod pobl fel 'na. Ydych chi, tybed? Er i stormydd bywyd sgubo'n eu herbyn, a hynny mewn modd creulon iawn ar adegau, eto, maent yn llwyddo, yn eu cryfder mawr, i oroesi'r stormydd.

O ble caiff pobl gryfder mewn storm? O Dduw? O'u ffydd? O'r eglwys? O gefnogaeth teulu a chyfaill? Mae'n siŵr bod ffactorau gwahanol yn cyfrannu at gryfder unigolion.



MAE Cymorth Cristnogol yn credu taw o'n cefnogaeth ni'n codi arian ac yn ymgyrchu i wneud pethau'n well ar y ddaear y daw eu cryfder nhw fel elusen. Cefnogwyr

Cymorth Cristnogol yw eu *superheroes*! Cawn gyfle eto'r wythnos hon i roi grym i'r elusen i helpu pobl ar draws y byd ddod dros y pethau sy'n eu bygwth, ac i ailadeiladu eu bywydau yn ogystal â'u cartrefi.

Gweddïwn

Rho inni, Arglwydd Dduw, weledigaeth o dy Deyrnas y mae dy gariad yn ei ddymuno.

Rho inni fyd ble mae'r gwan yn cael eu gwarchod, ac nad oes neb yn llwgu.

Rho inni fyd ble mae bywyd yn cael ei rannu a'i fwynhau gan bawb;

byd ble mae pob hil, cenedl a diwylliant yn byw mewn goddefgarwch a pharch;

byd lle caiff heddwch ei adeiladu gyda chyfiawnder, a lle caiff cyfiawnder ei arwain gan gariad.

Rho inni'r ysbrydoliaeth a'r dewrder i adeiladu dy Deyrnas yma ac yn awr.



Amen

Gweddi o 'Ein Tad Moliannwn Di' gan John Lewis Jones

Mis	Darlleniad
Wythnos 1	1 Ioan 5: 1-6
Wythnos 2	Luc 24: 44-53
Wythnos 3	Ioan 17: 6-19
Wythnos 4 - Pentecost	Actau 2: 1-21

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

EIRLYS JONES

Heol y Coleg

MARGARET LLOYD-EVANS

Penymorfa

EIRLYS DAVIES

Tir Ysgawen

CADWEN DAVIES

Heol y Prior

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

 I'R DYDDIADUR CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CYRDDAU CHWARTER 2018 	
Dydd Iau 13 Medi 2018 (4 a 7)	Siloam, Pont-ar-gothi
Dydd Iau 29 Tachwedd 2018 (10.30 a 1.30)	Trinity, Llanboidy

Mari Jenkins...

YMGYRCH ECO CAPEL Y PRIORDY

Diolch yn fawr i'r nifer ohonoch a fu'n casglu topiau poteli llaeth ar gyfer ymgyrch *Radio Glangwili*.



Rydym wedi casglu pum cwdyn mawr glas yn llawn o dopiau llaeth er Mis Chwefror.



poteli llaeth yn **Caffe Nero** yn y dre, trwy law cymdodges iddi.

Mae sawl caffi'n cefnogi'r fenter erbyn hyn. Diolch i Mrs Gill Owens am gasglu yn y caffi teuluol, **Caffi Rhiannon**, yn Cross Hands ac i Mrs Irene Williams sydd wedi llwyddo i gael topiau



Os oes cysylltiadau gyda chi, gofynnwch iddynt gefnogi'r fenter hefyd.

Mae Ian yn *Radio Glangwili* yn tybio'i fod wedi casglu digon o dopiau poteli i brynu tair cadair

olwyn newydd ychwanegol i'r ysbyty

Cofiwch – Dim ond topiau poteli llaeth, coch, gwyrdd a glas rydym yn eu casglu yn y Priordy. Mae bin mawr du ar gyfer hyn yn y cyntedd.



Cofiwch gasglu hen getrys inc cyfrifiadur a stampiau hefyd. Mae'r ymgyrch yn parhau ac angen mwy o gefnogaeth.

Daliwch ati i gasglu. Rydym yn werthfawrogl iawn.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

13-19 Mai 2018

GYDA'N GILYDD RYDYM YN GRYFACH NA'R STORMYDD

Bydd miloedd o bobl yng Nghymru a gweddill Prydain eleni'n cymryd rhan mewn digwyddiadau i helpu gwaith *Cymorth Cristnogol* yn Haiti a gwledydd eraill o amgylch y byd ble mae pobl angen help.



CASGLU YN Y DREF



Bydd Cymorth Cristnogol yn casglu o gwmpas y dref ar
Ddydd Mercher, 16 Mai rhwng 10 a 2.00 o'r gloch.

Mae mawr angen gwirfoddolwyr i gasglu. Yn ôl yr arfer,
canolfan weinyddu'r casglu fydd Capel y Wesleaid yn

Stryd Ioan (y tu ôl i Siop Boots). Cysylltwch â Swyddfa Cymorth Cristnogol neu
Jean Baker ar ☎ 01267 241079 os ydych yn gallu helpu, os gwelwch yn dda.



Credwn mewn byw cyn marw

WRTH GYFRANNU MEWN AMLENNI

Mae'n bwysig i drethdalwyr ysgrifennu eu henwau ar yr amlenni er
mwyn cael arian ychwanegol na fyddai Cymorth Cristnogol yn ei
dderbyn ar wahân i hynny.

Gwefan : www.cymorthcristnogol.org.uk Gwefan blant: www.globalgang.org.uk
Caerdydd: 029 2084 4646 Bangor: 01248 353574 Caerfyrddin: 01267 237257

**OS YDYCH CHI'N GALLU HELPU I GASGLU O DŶ I DŶ,
CYSYLLTWCH Â'N SWYDDOGION CYMORTH CRISTNOGOL
RHIAN EVANS AC EIRLYS JONES
OS GWELWCH YN DDA**

Cymorth  Cristnogol

Eleni, mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn disgyn oddi mewn i *Deled dy Deyrnas*, mudiad gweddi byd-eang ecwmenaidd ar hyd yr 11 diwrnod rhwng Dydd Dyrchafael a Phentecost. Mae *Deled dy Deyrnas* yn gwahodd Cristnogion i weddio ar i'r Ysbryd Glân ein grymuso fel ein bod yn dystion effeithiol i gariad Iesu yn y byd. Fel mudiad Cristnogol, credwn fod angen i'r byd newid ac y gall newid i adlewyrchu Teyrnas Dduw yma ar y ddaear.



Mae nifer o bobl yn ein byd heddiw'n llwglyd, yn sychedig neu heb loches. Rydym yn cyd-sefyll â'n cymdogion – pobl o bob ffydd a'r un ffydd – i rannu ein gobaith am fyd tecach.

Bob Mai, rydym yn eich gwahodd i ymuno gyda ni yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol i roi, gweithredu a gweddio - ac i helpu i ddileu tloidi.

MARCELIN A'I FERCHED

Eleni, rydym yn cerdded mewn undod gyda'n cymdogion byd-eang sydd wedi'u gorfodi o'u cartrefi. Ein cymdogion fel Marcelin. Collodd ei gartref yn 2016 pan ysgubodd Corwynt Mathew trwy Haiti. Mae Marcelin a'i dair merch bellach yn byw mewn bloc concrid 2x2m, a arferai fod yn gawod gymunedol. Nid oes ffenestri iddo, a'r unig ddodrefn yw gwely sengl. Gofod bychan, clawstroffobaidd ydyw, ac mae'r gwres yn llethol. Mae Marcelin yn gweithio'n galed i fagu ei dair merch ar ei ben ei hun, yn coginio, glanhau a gofalu amdanynt. Bellach ni all fforddio anfon y tair ohonynt i'r ysgol ac weithiau mae'n ymdrech i sicrhau fod digon o fwyd ganddynt. Weithiau maent yn llwglyd. Mae Marcelin yn galw ar i Dduw roi ffydd a nerth iddo allu gofalu am ei blant. Ond er ei fod yn gryf, ni all gymryd llawer mwy. Pan ofynnwyd iddo beth fyddai'n digwydd petai daeargryn arall yn taro, atebodd, '*Byddem yn marw.*' Mae Marcelin yn byw yn agos at ei hen gartref. Fel Marcelin, mae miliynau o bobl sydd wedi colli eu cartref yn parhau i fod yn eu gwlad eu hunain. Yn chwilio am ddiogelwch ond yn anfodlon neu'n analluog i groesi ffin, maent gan amlaf yn cael eu hanwybyddu gan y gymuned ryngwladol ac ni chânt y diogelwch swyddogol a roir i ffoaduriaid.



NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2018



Eleni, mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru yn 96 mlwydd oed.

Er 1922 mae'r broses o anfon neges ar ran pobl ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.

Rhoddwyd y cyfrifoldeb ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf i Urdd Gobaith Cymru gyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn flynyddol ar ddydd Ewyllys Dda, 18 Mai, sef dyddiad y gynhadledd heddwch gyntaf yn yr Hâg yn 1899.

Ers hynny mae grwpiau o bobl ifanc wedi derbyn y cyfrifoldeb i greu'r neges, ei pherfformio ynghyd â'i chyfieithu i nifer fawr o ieithoedd i'w dosbarthu i bobl ifanc y byd.



Eleni, mae pobl ifanc Morgannwg Ganol wedi llunio neges i'w rhannu ar 18 Mai 2018, ac mae'n amlwg bod iechyd meddwl yn bwysig iddyn nhw.

Byddant yn lansio'r Neges yn y Senedd yng Nghaerdydd ac yn ei chyflwyno ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesfed 2018 i'w chynnal ar faes y Sioe yn Llanelwedd. Byddant yn paratoi fidio a chaiff y neges ei rhannu'n fyd-eang gyda chymorth myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yng Nghymru.

Bydd yr Urdd hefyd yn comisiynu gwasanaeth i gydfynd â'r neges bob blwyddyn i'w ddefnyddio mewn ysgolion neu ysgolion Sul maes o law.

NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2018

Gwahoddwn bobl ifanc ar draws Cymru a'r byd i uno gyda ni i dderbyn ac i rannu neges eleni.

Clywch a dathlwch y diolch a'r gobaith sydd yn ein lleisiau.

Y diolch am y cyfleoedd sydd ym mhob agwedd o'n bywydau a'r gobaith y dylai'r cyfleoedd yma fod ar gael i bawb.

Mae angen i ni deimlo'n hyderus ynghylch pwy ydym ni fel pobl, i siarad am yr hyn sydd ar ein meddwl a lleisio'n barn, ac i ddweud os oes rhywbeth yn ein poeni.

Ond nid oes gan bawb yr un cyfle i ddefnyddio'u llais. Pan fyddwn yn teimlo'n unig neu'n bryderus mae ein gallu i ddefnyddio ein llais yn gwanhau ac mae hi'n anodd siarad am bethau sy'n effeithio arnom.

Ar adegau eraill, rydym yn lleisio ein barn i glustiau sy'n gwrando dim.

Gofynnwn:

(1) I bawb ein parchu pan fyddwn yn holi ac yn siarad am yr hyn sydd yn ein pryderu. Ni ddylai unrhyw un fod ofn defnyddio eu llais. Mae angen gwaredu'r stigma sydd yn gysylltiedig â mynegi emosiynau.[1]

(2) Am gael gwybod pwy sy'n medru ein cynorthwyo wrth wneud dewisiadau bywyd ac at bwy y medrwn droi ar adegau unig neu bryderus.

(3) I bawb ddefnyddio eu llais er lles eraill, er mwyn lleihau anghydraddoldeb a thlodi, gan fanteisio ar y llwyfannau a'r ymgyrchoedd sydd yn galluogi newid

Mae gan bawb lais: ein gobaith yw fod gan bawb yr un cyfle i ddefnyddio eu llais.

Mae angen i ni bobl ifanc fanteisio ar unrhyw gyfle i godi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldebau sydd yn bod ar draws y byd.

Mae'r neges eleni'n llunio rhestr o linellau cymorth / gwefannau / mudiadau a all gynorthwyo pobl ifanc

YN PERFFORMIO YN DAU HANNER BRAWD



Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL



TUDALEN BLAEN

Rheswm Eirlys Davies dros ddewis Calon Lân



Mae Calon Lân. a gyfansoddwyd gan Gwyrosydd, un o'm hoff emynau ers pan oeddwn yn blentyn.

Yn draddodiadol, mae'r emyn yn cael ei ganu ar y dôn *Calon Lân* a gyfansoddwyd gan John Hughes. Erbyn hyn, caiff ei ganu ar lawer o donau, fel *Blaenwern* a'r gân glasurol *The Rose*.

Un sy'n hoff iawn o ganu'r emyn yw Cerys Mathews a dangosodd sut mae modd newid cywair ac addasu ffurf y dôn.

Rydym yn clywed *Calon Lân* yn cael ei chanu mewn oedfaon ar y Sul, mewn priodasau ac angladdau. Hefyd, fe glywch y dorf yn ei chanu mewn gemau rygbi rhyngwladol a chorau meibion, Daeth *Only Boys Aloud* ag enwogrwydd i *Galon Lân*



wrth ei chanu ar *Britain's Got Talent*.



Sonnir yn y ddwy linell gyntaf am fywyd crand a moethus a geir drwy feddu ar gyfoeth bydol, aur a phethau mân y byd. Ond i mi, mae'n bwysicach i fod yn hapus a chael calon lân sydd ddim yn llawn o'r holl ddrygioni a rhyfela sy mor amlwg yn ein byd ni heddiw,



Gwyrosydd – Awdur Calon Lân, ei ddarn enwocaf ac emyn y bu llawer o ganu arno yn ystod y diwygiad (1904-5), a byth er hynny.

**GWASANAETH AMRYLIW
Y PLANT 22 EBRILL 2018**

Daeth criw bywiog at ei gilydd i ddatlu'r Sul gyda'r cwrdd plant ar 22 Ebrill. Thema'r gwasanaeth oedd *Gweddi*. Cafwyd gweddi agoriadol a chroeso gan Beti-Wyn yna daeth Mac i'r pulpud i gyhoeddi'r emyn cyntaf yn glir a hyfryd sef '*Hedd sy'n llifo fel yr afon*'.



Cafwyd y cyhoeddiadau lle llongyfarchwyd Meinir Lloyd ar y ffaith ei bod hi am dderbyn medal T. H. Parry-Williams yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd eleni. Dymunwyd gwellhad buan iddi ar ôl bod yn yr ysbyty hefyd. Cyflawnwyd dyletswyddau'r casgliad yn effeithlon iawn gan Ifan a Cadi, Jona ac Ethan.



Daeth Osian a Tomos i'r pulpud i sôn am sut ydyn ni'n cyfathrebu â'n gilydd. Pan fyddwn am siarad â rhywun, gallwn godi'r ffôn, anfon e-bost neu ddefnyddio'r amryw gyfryngau cyhoeddus sydd gennym erbyn heddiw. Ond sut mae cyfathrebu â Duw? Wel, y ffordd orau yw drwy roi dwy law ynghyd a gweddïo. Yna, aeth Syfi ymlaen i sôn am y darlun enwog gan Albrecht Durer o'r dwylo'n gweddïo ac adroddodd y stori am frawd Albrecht yn mynd i weithio er mwyn i Albrecht gael addysg a dod yn artist. Erbyn i Albrecht orffen, roedd dwylo ei frawd wedi mynd yn rhy fawr a garw i dynnu lluniau. Fel diolch i'w frawd, tynnodd Albrecht lun o'i ddwylo garw'n gweddïo. Pan welodd y bardd T. Rowland Hughes y llun carismataidd hwn aeth ati i ysgrifennu'r geiriau i'r emyn '*Dwy law yn erfyn*' a dyna oedd ein hemyn nesaf ni. Diolch i'r tri am ddarllen mor raenus.

Cafwyd darlenniad o efengyl Mathew yn sôn am sut ddylen ni weddïo; na ddylem wneud sioe fawr ohoni ond yn hytrach siarad yn dawel â Duw, oherwydd y mae ef yn gwybod beth sy'n llechu'n ddwfn yn ein calonnau ni – yna adroddodd pawb Weddi'r Arglwydd. Canwyd yr emyn '*Cariad Crist sydd yn rhyfeddol*' i gyfeiliant y band taro a gododd do'r Priordy'n uchel gyda'i egni a'i seiniau. Gwych!

Daeth y plant ymlaen i wrando ar neges Beti-Wyn pan soniodd hi am Weddi'r Ffa Jeli. Defnyddiodd Beti-Wyn holl liwiau gwahanol y ffa jeli i gyfleu rhywbeth am yr hyn y dylem ddiolch i Dduw amdano yn ein gweddïau. Gofynnodd i rai o'r plant ddod i'w helpu hi drwy ddal lluniau o'r ffa jeli o bob lliw i fyny'n uchel fel bod pawb yn medru gweld. Dyma ni'r lliwiau yn eu holl gogoniant:



Gwyrdd – daeth Beca i ddal ffeuen werdd oedd yn symboleiddio cofio am ein byd, y glaswellt, y môr, yr awyr a phob dim arall sydd ar y ddaear.

Oren – daliodd Mac y ffeuen oren i fyny, mae oren yn symbol o liw'r machlud ac yn ein hatgoffa ni bod nos a dydd i'w cael a'n bod ni'n diolch i Dduw amdanynt.

Coch – Mali oedd yn dal y ffeuen goch oedd yn symbol o waed Crist ac o Wener y Groglith a'r ffaith y bu Iesu farw drosom – mae'n symbol o gariad Duw tuag atom.

Melyn – Jona oedd yn dal y ffeuen felen, sydd yr un lliw â'r haul (a bananas!) ac mae'n ein hatgoffa ni o'r tymhorau ac o'r tywydd ac y dylem ddiolch am y rhain i gyd.


Porffor – Jac oedd yn dal y ffeuen borffor, sy'n symbol o Iesu Grist y Brenin, am fod porffor yn lliw sy'n cael ei gysylltu â brenhinoedd, daeth Iesu'r brenin mewn tangnefedd.

Du – Ethan oedd yn dal y ffeuen ddu sy'n symbol o'r pethau drwg sydd yn y byd, ac y dylem ddweud sori amdanynt.

Gwyn – Osian oedd yn dal y ffeuen wen achos er gwaetha'r pethau drwg, y mae Iesu drwy ei gariad yn eu troi nhw'n bethau da ac mae gwyn yn symbol o lendid a phurdeb.

Pinc – ac yn olaf, dangosodd Iestyn y ffeuen binc ac mae pinc yn symbol o bob dim yn y byd, yr holl bethau da, rhaid i ni gofio bod lot o ddaioni yn ein byd a bod angen i ni ddiolch am bob dim mae Duw yn ei wneud drosom ni.

Ac ar ddiwedd y gwasanaeth, fe gafodd pob plentyn nod llyfr lliwgar gyda'r Weddi Ffa Jeli arno i'w hatgoffa nhw ... a chael ffa jeli i'w bwyta hefyd, wrth gwrs.



**CLWB PLANT CYDENWADOL
GWEITHDY HAF**

**Am wybodaeth bellach – cysylltwch â Lleucu
lleucuedwards @urdd.org
☎01267 676751 / 07966 403389**

Cysylltwch er mwyn archebu lle

Blynyddoedd 3,4,5 a 6

25 Gorffennaf 2018

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

£20 (aelod) / £28.50 (os nad yn aelod)

**BARDDONI DRAMA DAWNSIO
GWEITHDY BARDDONI**



Mae'r Clwb yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr o blith yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Presbyteriaid a'r Eglwys Apostolaidd. Mae'n cyfarfod yn wythnosol yn Ffestri Capel y Tabernacl o 5 tan 6 ar nos Wener. Yr arweinwyr yw dau fyfyrwr ifanc o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, sef Rhys Hughes a Siôn Jones.

Cyfarfod Chwiorydd Gorllewin Caerfyrddin

Cyfarfod Blynyddol

yn

Siloam, Pontargothi

Nos Fercher 16 Mai 2018 am 7.30

Rhaglen £1 ar gael gan Beti-Wyn



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

HER YR HINSAWDD

AR nos Lun 16 Ebrill cynhaliwyd seithfed cyfarfod y Gymdeithas Ddiwylliadol a'r tro hwn cawsom fwynhau



anerchiad difyrus a diddorol iawn gan Elin Rhys. Rwy'n siŵr bod nifer ohonoch yn ei hadnabod o fyd y teledu gan ei bod wedi ymddangos niferoedd o weithiau'n cyflwyno rhaglenni gwyddonol eu naws i blant a phobl hŷn ers amser maith.




Ar ôl croeso gan Beti-Wyn cafwyd darlenniad addas gan y Dr Huw Michael o'r wythfed Salm sy'n sôn am Dduw'n gosod y greadigaeth yn ei lle, sylfaen addas ar gyfer pwnc ein gwestai arbennig.

Mae Elin newydd gynhyrchu cyfres newydd o raglenni yn dwyn y teitl "*Her yr Hinsawdd*" a chawsom gipolwg ar y gyfres hon yn ystod ei hanerchiad. Teithiodd gyda thîm o arbenigwyr i sawl gwlad wahanol gan nodi nodweddion hinsoddol y wlad honno a dangos sut mae'r hinsawdd wedi newid dros y degawdau.



Un a fu'n greiddiol i'r gyfres oedd y Dr Siwan Davies, Athro Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Hi oedd yn cyflwyno ac yn traddodi'r gweithgareddau a'r profiadau gydol yr ymweliadau.



Yr ymweliad cyntaf oedd â'r Ynys Las ac yno buodd y tîm yn casglu gwybodaeth am lwch folcanig oedd yn bodoli yn nwf'n y llen iâ a darganfuwyd nad yw'r newidiadau yn yr hinsawdd wedi bod yn rhai naturiol sydd wedi arwain at her ddifrifol iawn i'r trigolion. Ystyriwch y datganiad hwn, meddai Elin, sef bod mwy na phum can biliwn o litrau o ddŵr yn llifo i'r môr bob dydd oherwydd y cynnydd yn y tymheredd

ac mae'n debyg fod y dadlaith blynyddol yn dechrau ynghynt bob blwyddyn!

Ffaith syfrdanol arall yw y gallai holl iâ'r Ynys Las doddi a pheri i lefel y môr dros y byd godi saith metr os nad yw'r toddi mawr yn cilio! A hyn i gyd oherwydd yn llygru a'r camddefnydd o adnoddau naturiol sydd wedi achosi anghydbwysedd difrifol yn ddaearyddol ac o'r herwydd wedi arwain at gynhesu dros y byd.



Er mwyn gweld sut oedd hyn yn effeithio ar fannau eraill y byd, aed â ni ar ymweliad ag Ynysoedd y Maldives.

Cyrchfan twristiaid sy'n chwilio am hafan yn yr haul - ond arhoswch. Gan fod lefel y dŵr wedi codi gymaint does yna ddim un o'r ynysoedd niferus yma'n llai na metr uwchben y dŵr.

Golyga hyn, wrth gwrs, dipyn llai o dir ac yn y brifddinas gwelir y boblogaeth yn byw bron ar ben ei gilydd ac yn gorfod derbyn cyflenwadau o ddŵr mewn poteli plastig gan nad oes yna ddŵr glân ar eu cyfer. Ynghyd â hyn mae'r ddŵr yn mynd yn fwy asidig gan fod y tymheredd yn codi. Mewn ynys arall o'r enw Kudafar sy'n dair awr o swrnai mewn cwch bach gwelir problemau gwaeth. Er mwyn goroesi mae canran uchel iawn o'r boblogaeth yn mynd i weithio yn y gwestai moethus ar yr ynysoedd eraill yn y Maldives. Yn Kudafari mae'r trigolion yn blwyfol iawn, yn caru'r tir ac nid ydynt am adael. Felly, mae nifer o'r bobl ifainc wedi cynllunio prosiectau i achub yr ynys.

Un o'r ffyrdd yw amddiffyn y cwrel sydd yn y môr. Oherwydd y tymheredd a'r asid



mae'r cwrel yn marw a sgîl effaith hyn yw prinder pysgod. O ganlyniad, does dim pysgota'n digwydd ac mae'n amddifadu'r trigolion o brotîn pwysig. Hefyd, oherwydd y prinder pysgod does dim twristiaid yn dod i ddeifio i arsylwi arnynt. Dywedodd un o'r

trigolion wrth y Dr Siwan ei bod yn cofio amser pan oedd toreth o bysgod o bob lliw yn byw ac yn bwydo ar y cwrel – ond nawr mae hi fel anialwch dan y dŵr. Unwaith roedd y môr yn cynnal yr ynys ond yn awr mae'n ei bygwth!

Diolch, fodd bynnag, i frwdfrydedd a gweledigaeth y bobl mae ymgais i amddiffyn y cwrel trwy annog y cwrel sy'n dal yn fyw i wrthsefyll yr amgylchiadau gwrthgynhyrchiol drwy newid safleoedd y cwrel yn y dŵr a'u gosod yn agosach at y lan. Problem arall yw bod lefel y dŵr wedi achosi i'r ynysoedd eu hunain gael eu herydu, yn enwedig pan fydd y stormydd yn taflu'r tonnau at y glannau. Gyda chymorth y Cenhedloedd Unedig mae llawer iawn o blannu coed wedi digwydd - coed arbennig iawn sy'n tyfu'n uchel ac yn gryf ac sy'n medru creu amddiffynfa rhag y stormydd. Mae ffrwyth llafur y prosiect yn dechrau ymddangos.

Y wlad olaf yr ymwelwyd â hi oedd Uganda – eto'n wahanol iawn o ran daearyddiaeth a hinsawdd. Y broblem fawr fan hyn yw sychder am fod y llywodraeth ar un adeg wedi credu y byddai'n syniad da i dorri coed ar gyfer adeiladu. Torron nhw nifer enfawr o goed gwerthfawr a oedd unwaith yn amddiffyn y tir rhag erydiad ac yn sicrhau fod lefelau CO2 ac ocsigen mewn cydbwysedd. Mae'r ffaith hefyd fod patrwm y glaw wedi newid a bod y cynydau'n methu'n golygu fod ganddynt broblem aruthrol ar eu dwylo.



Wrth ymweld ag Uganda sylwyd fod y bobl mor hapus a chroesawgar a chafodd y tim groeso brenhinol bron. Eto, yma, mae prosiect anferth o blannu coed yn digwydd a gyda llaw mae Llywodraeth Cymru'n ariannu tipyn o'r cynllun trwy dalu am y coed.

Yn ardal Bali Kap yn Uganda mae targed enfawr ganddynt o blannu deg miliwn o goed gyda chymorth gwahanol elusennau gan gynnwys tair elusen o Gymru, sef Pont, Maint Cymru a Hwb Cymru/Affrica. Hyfryd oedd gweld plant yn yr ysgol leol yn Bali Kap yn adrodd, yn Gymraeg "*Cymru o blaid Affrica*"



Does ond gobeithio y daw y llywodraethau mawrion i'w synhwyrau ac edrych o ddifrif ar y sefyllfa. Yn anffodus, nid yw'r Arlywydd Trump wedi cefnogi Cytundeb Paris i wella'r amgylchfyd ond diolch fod yna nifer o unigolion sy'n gallu gweld y darlun cyfan a bod cwmnïoedd teledu fel Telescôp yn ein haddysgu am broblem enfawr Her yr Hinsawdd.

DIOLCH i Elin am ei gwaith ardderchog ac am y gyfres hynod o ddiddorol.. Mae'n diolch hefyd i'r rhai fu mor garedig â pharatoi'r lluniaeth ar gyfer y noson.

CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN

CWRDD CHWARTER NESAF

Capel-y-Graig, Tre-lech

Dydd Iau 10 Mai 2018

Cyfarfod y Prynhawn am 4

Cyfarfod yr Hwyr am 7

Wynford Ellis Owen – "S neb yn berffaith! Sut mae derbyn hynny?"



DIWRNOD RHYNGWLADOL NYRSYS

12 Mai 2018

Mae Diwrnod Rhyngwladol Nyrsys yn cael ei ddathlu ledled y byd ar 12 Mai bob blwyddyn i nodi cyfraniad nyrsys i gymdeithas. Mae'n digwydd ar ddiwrnod geni Florence Nightingale (1820-1910) yn Fflorens, yr Eidal. Daeth hi'n nyrs enwog o ganlyniad i'w gwaith adeg rhyfel y Crimea.. Ym 1860 wrth sefydlu ysgol nyrsio St Thomas, Llundain sicrhodd fod seiliau nyrsio proffesiynol yn cael eu gosod. Mae



Amgueddfa Florence Nightingale ar dir Ysbyty St Thomas sy'n sefyll ar lannau'r Tafwys yng nghalon Llundain. Saif cofgolofn Florence yn Waterloo Place yn Llundain.

Nyrs enwog arall a fu'n gweithio ochr yn ochr â Florence Nightingale yn Rhyfel y Crimea oedd Elizabeth "Betsi" Cadwaladr (1789-1880) Caiff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei enwi ar ei hôl. Ond



doedd dim llawer o Gymraeg rhwng Florence a Betsi, mae'n debyg!

Beth bynnag, mae nyrsys yn gwneud



cyfraniad hanfodol i wella bywydau unigolion a'u teuluoedd, iechyd a lles cymunedau cyfan a'r boblogaeth ehangach. Mae Diwrnod Rhyngwladol Nyrsys felly'n gyfle i ddathlu gwaith nyrsys sy'n rhoi cymaint i helpu eraill. Mae'n siŵr bod dyled gan amryw ohonom yn y Priordy i nyrsys am eu gofal a'u caredigrwydd.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor Nyrsio Rhyngwladol yn sefydlu thema wahanol ar gyfer y diwrnod. Y Thema ar gyfer 2018 yw *Nyrsys: Llais i Arwain - Mae Iechyd yn Hawl Dynol*.

Mae gwahanol wledydd yn dathlu'r diwrnod mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, yn Awstralia mae'n arfer cyhoeddi Nyrs y Flwyddyn yn y wlad honno ar y diwrnod hwn. Yn Tsieina, mae nyrsys weithiau'n dod ynghyd i adrodd llw Florence Nightingale. Yn yr Unol Daleithiau maen nhw'n dathlu'r diwrnod fel rhan o Wythnos Genedlaethol y Nyrsys sy'n digwydd yno rhwng 6-12 Mai. Yng Ngwledydd Prydain mae gwasanaeth yn Abaty Westminster yn Llundain. Ar ben hynny yng Nghymru cynhelir gwahanol ddathliadau, fel boreau coffi a gwasanaethau ac ati i ddathlu'r diwrnod.

Mae'r pecyn gwybodaeth ar gyfer thema 2018 yn dweud fod nyrsys yn hanfodol i drawsnewid gofal iechyd a systemau iechyd fel na fydd yr un person yn cael ei adael ar ôl. Gall nyrsys fod yn llais i arwain drwy wella mynediad i ofal a thrwy sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn dylanwadu ar bolisi gofal iechyd, cynllunio a darparu.

A Diwrnod Rhyngwladol Nyrsys hapus i'r holl nyrsys drwy'r byd sy'n gweithio mor galed i ofalu amdanom



CYFARFODYDD BLYNYDDOL YR OFALAETH

CANA

Nos Fercher, 9 Mai 2018 am 7

Y Parchedig Geraint Morse

Swper i ddilyn



BANCYFELIN

Nos Iau, 24 Mai 2018 am 7

Y Canon Dorrien Davies

Archddiacon Caerfyrddin

Swper i ddilyn



Croeso cynnes i bawb

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



ANRHYDEDD I MEINIR

Bydd Meinir Lloyd yn derbyn Medal Goffa Syr T H Parry-Williams yn wobwr am ei gwaith fel hyfforddwraig a'i chyfraniad neilltuo i'w hardal leol.

Mae'r Fedal yn cael ei chyflwyno'n flynyddol i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad gwirioneddol yn eu hardal leol, gyda phwyslais arbennig ar weithio gyda phobl ifanc.

Roedd Meinir Lloyd, sy'n wreiddiol o Ddyffryn Clwyd, yn un o sêr canu ysgafn y 1960au ac yn wyneb cyfarwydd ar raglenni teledu'r cyfnod. Daeth un o'i chaneuon, '*Watshia Di Dy Hun*', yn boblogaidd iawn yunwaith eto'n ddiweddar.



Ers ymgartrefu yng Nghaerfyrddin yn 1972, mae hi wedi hyfforddi cannoedd o blant a phobl ifanc yr ardal. Mae nifer fawr ohonynt yn enillwyr cyson mewn eisteddfodau ac yn yr Ŵyl Gerdd Dant, ac yn adnabyddus fel perfformwyr mewn nosweithiau cerddorol a chyngherddau o bob math.



Am flynyddoedd, bu'n hyfforddi'n wirfoddol bartïon myfyrwyr Coleg y Drindod: yna sefydlodd barti bechgyn Bois y Dderwen, ac yn ddiweddarach gôr merched Telynau Tywi, côr y bu'n ei arwain am bymtheng mlynedd.

Bu'n organydd yng Nghapel y Priordy, Caerfyrddin, am fwy na 45 mlynedd, a hi oedd Llywydd Cymdeithas Cerdd Dant

Cymru y llynedd.

Bydd Meinir yn derbyn y Fedal yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau mawr iawn i Meinir, a gwellad buan iddi ar ôl ei thriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Treforys oddi wrthym i gyd yn y Priordy!

AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



Tudalen Ieuenctid@Priordy

MABOLGAMPAU MIC 2018

**Gorllewin Sir Gâr - (Cylch
Caerfyrddin ac i'r gorllewin o
Gaerfyrddin).**

Canolfan Hamdden
Caerfyrddin.



Nos Fawrth 19 Mehefin.

Oedrannau Meithrin, Blwyddyn 1 a

Blwyddyn 2 i ddechrau am 6:00 y.h.

Blynnyddoedd 3-6 i ddechrau am 7:00 y.h.

Bydd y ddau gyntaf ym mhob
cystadleuaeth yn ennill yr hawl i gynrychioli
eu rhanbarth yn rowndiau terfynol y sir.



Cyn cofrestru plant i
gymryd rhan gnewch yn
siŵr eu bod nhw ar gael i
gystadlu yn y rowndiau
terfynol ar

11 Gorffennaf os
byddant yn llwyddiannus
yn y rownd rhanbarthol.

Rowndiau Terfynol Y Sir - Canolfan
Hamdden Caerfyrddin.

Nos Fercher 11 Gorffennaf

Rowndiau terfynol oed meithrin, ac oed
cynradd ynghyd â chystadlaethau agored
oed uwchradd.

**ENWAU I LUNED ERBYN DYDD
MERCHER, 23 MAI**

lunedthomas@googlemail.com

gan nodi 'TRAC' a/neu 'MAES'.

Dyddiadau'r mis:

Mai 3 - Ysgol Sul

Mai 13 - Ysgol Sul a PIP

Mai 20 - Cwrdd Plant a Phobl ifanc

Mai 27 - Dim Ysgol Sul

Mehefin 3 - Ysgol Sul

**Pob lwc i bawb sy'n
cystadlu yn Eisteddfod yr
Urdd!**

Hwyl am y tro,

Beti-Wyn



TE PARTI ACHING ARMS



Heledd Tomos yn sôn am y

TE PARTI ARBENNIG

AR BRYNHAWN Dydd Sul 29 Ebrill
cawsom De Parti *Aching Arms* yn y festri.

Roedd y lle yn orlawn a mwy na digon o
fwyd i bawb! Daeth y Maer Alun Lenny a'i
wraig Ann i agor y Te Parti ac rydym yn
hynod ddiolchgar am eu
rhodd hael i'r achos.
Roedd yn brynhawn
llwyddiannus iawn gan
godi mwy nag £800 ac mae'r cyfraniadau'n dal i
ddod i mewn.



Hoffem ddiolch yn fawr
iawn am yr holl help, o
wneud cacennau a
brechdanau ac am bob cymorth ar y dydd, ac
wrth gwrs diolch yn fawr i Beti Wyn am gyd-
drefnu.

OS OES unrhyw rai'n dal eisiau cyfrannu plŷs
rhowch i Beti- Wyn neu i mi cyn gynted â
phosib. Bydd yr arian yn mynd at brosiect
ymchwil gan *Aching Arms*.



GWAHODD EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU I SIR GAERFYRDDIN 2021

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd y Gwendraeth,
Dre-fach ar Nos Lun, 25 Mehefin 2018 am 7 i drafod y gwahoddiad hwn a'r
posibilrwydd o gynnal Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn yr ardal
yn y flwyddyn 2021.

**Beth am droi at cyfundeb.com?
Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin**



GAIR O DDIOLCH GAN ELUNED MADDOX

Dymunaf ddiolch yn fawr am bob arwydd o gefnogaeth a chydymdeimlad cyn ac ar ôl marwolaeth John.

Diolch am y presenoldeb yn y Priordy ar Ddydd Iau 29 Mawrth ac yn arbennig i'r cludwyr, yr organyddes Janet Davies a'n Gweinidog Beti-Wyn.

Bu Beti-Wyn yn arbennig o ffyddlon a charedig yn ymweld â John ar yr adegau y bu yn yr ysbyty ac yna wedyn yma yn Hafan Tywi. Ni wnaft fyth anghofio'i lluo o gymwynasau ymarferol a'i phresenoldeb yma'n hwyr y nos ac yn oriau mân y bore wedi i John ein gadael.

Mae'n parhau'r un mor garedig a ffyddlon a chytunaf â barn perthnasau inni a phreswylwyr Hafan Tywi ein bod fel capel yn ffodus tu hwnt o'i chael fel ein Gweinidog.

Yn gywir

Eluned

**Ysgol Gyfun Gymraeg
BRO MYRDDIN**

Annwyl Gyfeillion Capel y Priordy

Hoffai'r Dr Llinos Jones a'r Adran Addysg Grefyddol ddiolch yn fawr iawn am eich rhodd hael yn ddiweddar, sef copïau o Beibl.net.

Cafodd y Beiblau eu cyflwyno i'r Pennaeth Adran, sef Mrs Gwenan Morgans ac i Mrs Tracy Jenkins, athrawes Addysg Grefyddol, gan y Parchedig Beti-Wyn James a Steffan Jones, disgybl B11, yn ddiweddar.

Bydd y Beiblau modern o fudd mawr i'r Adran ac yn ein cynorthwyo yn y gwersi dyddiol.

Yr eiddoch yn gywir

**Dr Llinos Jones
Pennaeth**

**Mrs Gwenan Morgans
Pennaeth Addysg Grefyddol**



Carys Morgans, Swyddog

Cyswllt y Gefeillio

yn cyflwyno...

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON



Penwythnos y Pasg

Fore Gwener y Groglith, cynhaliwyd oedfa Gymun yng nghapel Ebeneser. Yn dilyn yr oedfa cafwyd gorymdaith o amgylch y dref.

Nos Wener y Groglith, bu rhai o ieuenctid Salem yn gyfrifol am yr oedfa ar y thema 'Profiadau'r Wythnos Fawr drwy lygaid Simon Pedr'.



Y Gymdeithas – Gohirio

Dathlu Gŵyl Ddewi!

Tarfwyd ar y dathlu oherwydd yr eira ym mis Mawrth ond fe gawsom ddathlu ym mis Ebrill gyda swper ac adloniant gan y Brodyr Magee o Gaergybi

Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi gyda byrddau gwerthu. Aeth yr elw at elusen leol a ddewiswyd gan yr aelodau. Ambiwylans Awyr Cymru oedd eu dewis y tro hwn.



‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

Boreau Mercher 2,9,16,23 Mai 2018 - 11.00 tan 12.0

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Manylion pellach

☎01267 237696 ☎01267 236658

JAMES EIRIAN DAVIES
Gweinidog a Bardd
1918-1998



Ganed J Eirian Davies ar 28 Mai 1918, gan mlynedd yn union yn ôl i'r mis hwn. Cartref ei deulu llengar oedd Y Llain yn

Nantgaredig. Roedd ei rieni, Rachel a Dafydd Davies, yn hannu o Frechfa.

Bu colli'i frawd, Emrys, yn ei arddegau, tra oedd y ddau'n nofio yn Afon Tywi yn ymyl Y Llain yn ysgytwad mawr iddo. Fe'i hysgogodd yn y pen draw i fynd i'r weinidogaeth.

Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Nantgaredig, Ysgol Ramadeg y Frenhines Elisabeth Caerfyrddin, Coleg Trefeca, Coleg y Brifysgol Abertawe a'r Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth.

Cafodd ei ordeinio'n weinidog gyda'r Presbyteriaid yn 1949 a gwasanaethodd mewn tair gofalaeth, sef Hirwaun a Phenderyn, Cwm Cynon (1949-1954), Brynaman (1955-1961) a Bethesda, yr Wyddgrug a Nercwys (1962-1981).



Priododd ym 1949 â Jennie Howells (1925-82) Waunrhelfa, Llanpumsaint, Sir Gâr. Meibion iddynt yw Siôn Eirian, y llenor, a Guto Davies.

Ymddeolodd Eirian Davies i Langynnwr, Caerfyrddin. Bu farw 5 Gorffennaf 1998 mewn cartref yn Ffair-fach. Gwasgarwyd ei lwch yn y pwll lle collodd ei frawd. Gosodwyd plac er cof amdano yng Nghapel Nantgaredig yn 2004 pan draddodwyd anerchiad nodedig gan ei gyfaill, Y Parchedig W I Cynwil Williams.

Bu Eirian Davies, fel ei briod, yn ddylanwadol iawn ym mywyd crefyddol, llenyddol ac eisteddfodol Cymru. Ar un adeg roedd colofn ganddo yn y *Western Mail*, sef *Gair neu Ddau*. Bu hefyd yn ddirprwy i'w briod pan oedd hi'n olygydd Y Faner. Cynorthwyodd ei briod hefyd yn ei hymgyrchoedd gwleidyddol pan safodd dros Blaid Cymru


yn Sir Gâr ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf.

Meddai D Ben Rees amdano yn ei ddyddiau cynnar:

'Adnabyddid ef yn y cylchoedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin a Sir Aberteifi fel pregethwr deniadol a myfyriwr anghonfensiynol yn ei arddull, ac yn arbennig ei wisg.'


Roedd ganddo lais arbennig o felodaidd a phregethai mewn arddull hamddenol a chynnes. Yn ŵr addfwyn, roedd hi bob amser yn fraint cael gwrando arno.

Chwaer iddo oedd yr awdures **Aeres Evans**. Mae hi'n nodedig am ei llyfrau ar chwedloniaeth Cymru, fel *Chwedlau Morgannwg*, a'r gyfrol *Cofio - Jennie Eirian*. Fe'i cofir hefyd am ei nawdd hael drwy *Ymddiriedolaeth Ifor ac Aeres Evans* i elusennau amrywiol, y celfyddydau a thriniaethau meddygol er cof am ei mab Emyr, cerddor a mathemategydd talentog.



Enillodd Eirian Davies fri fel bardd yn nyddiau coleg gan gipio'r gadair a'r goron yn yr eisteddfodau rhyng-golegol. Daeth yn feistr ar y canu rhydd a'r canu caeth ac yn awdurdod ar y soned. Mae'n awdur pum cyfrol o farddoniaeth, yn cynnwys *Awen yr Hwyr* (1991) i gofio Jennie. Roedd ei gerddi'n ymdrin â chyflwr crefydd, yr iaith, y genedl a heddychiaeth yn bennaf.

Mae ganddo emyn yng Nghaneuon Ffydd, sef emyn priodas *Ti yw'r hwn sy'n fôr o gariad* (657) a luniodd pan oedd yn weinidog yn Yr Wyddgrug. Yn ôl *Cydymaith Caneuon Ffydd*, fei' canwyd gyntaf ym mhriodas Y Parchedig Meurwyn Williams a Carys. Roedd Meurwyn Williams, a fu'n llais cyfarwydd ar y cyfryngau ac, yn enedigol o Frynaman lle bu Eirian Davies yn weinidog. Ymddangosodd yr emyn hefyd yn ***At eich Gwasanaeth***, cyfrol o ddeunydd o eiddo Eirian Davies ar gyfer eglwysi.



Consýrn am ddyfodol Cymru fel gwlad Gristnogol sydd flaenaf yng

nghanu Eirian Davies a dyma ddyfynnu *Gwaredwr y Byd* i orffen, sef darn o'i waith am yr Iesu Byw y credai mor angerddol ynddo:

**Bu'r Iesu yn ifanc
Ar ddaear Ei wlad
Yn sôn am y Deyrnas
Sy'n perthyn i'w Dad.
Fe gerddai'r tyrfaoedd
I'w ganlyn i gyd
I glywed a gweld
Gwaredwr y byd.**

**Fe rodiai, yn ifanc,
Ar ddaear Ei wlad
I gyffwrdd â'r meirw
Yn enw Ei Dad,
A'r rheiny'n di-huno
A chodi i gyd
I glywed a gweled
Gwaredwr y byd.**

**Bu'r Iesu yn ifanc
Ar ddaear Ei wlad
Yn gweini fel meddyg
Gan gynnig iachâd.
Dôï'r byddar a'r deillion
A'r cloffion i gyd
I glywed a gweled
Gwaredwr y Byd.**

**Mae'r Iesu hyd heddiw
Ar ddaear ein gwlad
Yn ifanc Ei ysbryd
Mae'n dweud am Ei Dad
Ac mae'n galw ar rywrai
I ddyfod o hyd
I'w glywed a'i weled
Fel Gwaredwr y byd.**



PERERINDOD YR OFALAETH

i

DYDDEWI

a

PHENCAER, ABERGWAUN, SIR BENFRO



Dydd Sul 10 Mehefin 2018

Bydd y bws yn gadael y mannau hyn yn brydlon yn y bore

9.45 – Heol y Prior 9.50 – Heol Awst 10.00 – Cana 10.05 – Bancyfelin

11.15 – 1.15 – Tyddewi

Cyfle am wâc, paned a rhywbeth bach i'w fwyta / brechdanau (pawb i wneud eu trefniadau eu hunain)

2.00 – Fferm Bristgarn, Pencaer i glywed hanes hen gloc tad-cu o ddyddiau glaniad y Ffrancod

2.30 - Capel Harmoni, Pencaer
Oedfa gyda'r Parchedigion Geraint Morse a Beti-Wyn

5.30-Swper yng Ngwesty Nant-y-ffin

Pris y diwrnod (yn cynnwys swper) - £21

Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda. Plis peidiwch â gadael pethau tan y funud olaf!!



DIWRNOD CENEDLAETHOL GWEDDŌ DROS YR HEDDLU

Dydd Iau 10 Mai 2018

Gweddïwch am y canlynol:

- Swyddogion yr heddlu a theulu ehangach yr heddlu
- Diogelwch yr heddlu wrth fod ar ddyletswydd
- Help i'r heddlu gadw cymunedau'n ddiogel
- Atebion arloesol, tosturiol a dewr (i broblemau cymunedol)
- Cymorth i'r heddlu wneud penderfyniadau anodd



Y PASG YN YR OFALAETH

PRYNHAWN GWENER Y GROGLITH

A'R Groes wedi'i gosod ar Ben Bryn Myrddin ar Brynhawn Dydd Gwener y Groglith am 3 o'r gloch tynnodd Beti-Wyn sawl darlun ohoni'n sefyll uwchben dinistr ac adfeilion mewn gwahanol fannau yn y byd. Fel ym



Macao, Hong Kong yng nghanol adfeilion eglwys a ddinistriwyd gan gorwynt – sefyllfa a fu'n symbyliad i John Bowring gyfansoddi'r emyn *In the Cross of Christ I glory* (a droswyd i'r Gymraeg gan George Rees). Ac fel yn Efrog Newydd ar safle Tyrrau Canolfan Masnach y Byd a ddifrodwyd yn llwyr gan derfysg. Croesau yw'r rhain yn sefyll uwchben rwbél ac yn arwydd o obaith. Roedd y Groes uwchben yr Eglwys Gatholig yn ninas Philadelphia hefyd i fod yn uwch na phopeth arall o'i chwmpas yn ôl gorchymyn yr awdurdodau. Daeth tro ar fyd, fodd bynnag, gyda'r nendyrau'n codi ben ac ysgwyddau'n uwch na hi ac yn ei chysgodi. A'r dyddiau hyn mae cyfoeth a golud dyn fel be baent yn codi uwchben yr Eglwys a'r Groes. Eto i gyd, fel y dywedodd ein Gweinidog, does dim byd yn drech na'r Groes yn Philadelphia nac unrhyw fan arall, Neges y Groes sy'n parhau i ddod â gobaith o fywyd newydd i ddynolrwy.

Cafodd Beti-Wyn gymorth y Parchedigion Peter Cutts, Wynn Vitle a Tom Defis yn y gwasanaeth.

Mae'r daith hon yn cario'r Groes i gopa Bryn Myrddin yn Abergwili'n prysur ennill ei lle yng Nghalendr Digwyddiadau'r Pasg yng Nghaerfyrddin. Unwaith eto apeliodd y prynhawn at deuluoedd a phobl o wahanol oedrannau.



Cludwyd y Groes, o waith Lyn Jones, Bancyfelin, gan ddau o fechgyn ifainc y Priordy, sef Jac a Tomos. Fe'i gosodwyd ar ben y Bryn ac yn dilyn y gwasanaeth, dychwelodd pawb i'r Ganolfan lle roedd ffrindiau eraill o wahanol eglwysi'r dref a'r cylch wedi ymuno â ni. Diolchodd Tom Defis ar ein rhan yn gynnes iawn i Beti-Wyn am y trefniadau ac i

staff y Ganolfan am y lluniaeth ysgafn. Mynegodd mor berthnasol oedd i ni ymlwybro â'n gilydd i ben bryn ar y diwrnod arbennig hwn.

BORE SUL Y PASG

CROES wag oedd wrth fynedfa'r Priordy wrth i ni fynd i mewn i'r capel ar fore'r trydydd dydd.



A chafodd y gynulleidfa luosog ei hannog gan ein Gweinidog i weld y Groes wag yng ngoleuni'r Atgyfodiad ac i ganlyn y Crist byw buddugoliaethus a bod yn dystion iddo. Crëwyd naws arbennig yn ystod y cydgymuno wrth i ni glywed datganiadau ar dâp o *Dosturi Duw* gan Sian Wyn Gibson ac *Ei gwmni Ef* gan Gôr Llangadog yn y cefndir wrth rannu'r elfennau..

Bu'n oedfa arbennig o ddiddorol i'r plant a gafodd lu o weithgareddau i'w cyflawni, yn cynnwys llunio croes o bapur, cwblhau tasgau gyda phensiliau amryliw a sticeri Pasg a chymryd rhan mewn helfa wyau.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mair Jones (Cana), Miriam Wyrwoll (Y Priordy) a Carwen Howells (Bancyfelin). Y casglyddion oedd Osian a Tomos (Y Priordy) a Rhun a Gwion (Cana). Bu Lyn Jones (Bancyfelin), Adrian Evans a Philip Jones (Y Priordy) a Howard James (Cana) yn cynorthwyo'n Gweinidog i weini'r Cymun. Roedd Iwan Evans wrth yr organ a Gareth Gravell yn cyhoeddi.

Wrth i ni adael y capel a chyfarch ein gilydd, derbyniodd pob un ohonom wy bach siocled blasus iawn gan ein Gwenidog.

BORE'R PASG AR RADIO CYMRU

Roedd Oedfa Bore'r Pasg ar *Radio Cymru* yng ngofal Beti-Wyn a rhai o ieuenctid y capel. Llwyddodd ambell un i glywed y darllediad cyntaf am 5.30 ond yr ailddarllediad am 11.30 a glywyd gan y mwyafrif! Gweler yr adroddiad am hyn yn y Papur hwn, ynghyd â sylwadau pellach am Oedfa'r Bore yn y Priordy.



PRYNHAWN SUL Y PASG

YMGASGLODD nifer da unwaith eto eleni ger mynedfa'r Wenallt ym Mancyfelin ar gyfer ein taith gerdded flynyddol drwy'r pentref ar y trydydd dydd yn cario'r Groes. Arhoswyd hwnt ac yma i glywed gair o'r Beibl ac i ganu emyn, gan gynnwys y tu allan i gartref Haydn Thomas, un o ddiaconiaid ffyddlon Bancyfelin a chael croeso twymgalon ganddo yntau a'i briod.

Yn y gwasanaeth yn y capel cyflwynodd Beti-Wyn gyfres o luniau'n portreadu croesau gwahanol, gan gynnwys rhai a wnaethpwyd o brenau cychod a gafodd eu llongddryllio'n cario ffoaduriaid ac eraill o adfeilion Cadeirlan Coventry a chwalwyd adeg yr Ail Ryfel Byd. Yn gyffredin i'r croesau hyn mae arwydd nid yn unig o ddioddefaint ond hefyd o obaith a chymod a bywyd newydd. Mae hanes y Groes a'r bedd gwag ar fore'r Pasg cyntaf a'r Iesu Atgyfodedig yn concro marwolaeth yn ysbrydoliaeth ac yn gynhaliaeth i ni oll hyd heddiw.

Cymerwyd rhan yn ystod y daith gan Gwawr Waters (Bancyfelin), Elin Wyn a Sara Llwyd (Y Priordy) a Steffan Jones (Cana), ac yn y capel gan Siôn Jones a Gwion Jones (Bancyfelin). Roedd Gwyneth Griffiths wrth yr organ.

I gloi prynhawn hyfryd, cawsom fwynhau paned a byns y Grog gyda'n gilydd. Talwyd y diolchiadau gan Sulwyn Thomas a gyfeiriodd yn arbennig at y gwragedd a fu'n paratoi'r lluniaeth ac i Beti-Wyn am ei gweithgarwch mawr dros yr wythnosau diwethaf ac yn wir yn ystod yr un mlynedd ar bymtheg i'r Pasg hwn y bu'n weinidog arnom bellach.



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

DYDD IAU, 17 MAI 2018

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



Y PASG YN YR OFALAETH



LLWYFAN Y PASG

Stori'r Geni yw un o'r storïau "mwyaf fu Serioed". Ond beth am ddrama'r Pasg? Oes iddi'r un apêl i gynulleidfa? Glywsoch chi Oedfa Sul y Pasg, BBC *Radio Cymru* 1 Ebrill 2018 dan arweiniad y Parchedig Beti-Wyn James, Heledd, Rhiannon ac Elis o Gapel y



Priordy, Caerfyrddin - am 5.30 y bore bach neu am 11.30? Neu efallai mai yn y Priordy oeddech chi fore Sul am 10 o'r gloch. Oedfa dan arweiniad y Parch Beti Wyn a thair o aelodau'i gofalaeth.




Nid yn aml y daw cyfle i wrando ar yr un bregeth ddwywaith mewn diwrnod! Ond dyna oedd y profiad bendithiol gawsom ni ar Sul y Pasg eleni. Y capel y bore Sul hwnnw yn llawn i'r ymylon o blant, pobl ifanc a phobl hŷn a'r gweinidog yn ôl ei harfer wedi paratoi'n fanwl ar gyfer pob carfan, gan gynnwys gweithgarwch pwrpasol ar gyfer y plant.

Oedfa ydoedd yn llwyfannu drama'r Pasg ac yn cynnwys holl elfennau drama fawr. Ei llwyfannu yn yr Ardd. Gardd Gethsemane. A'r cymeriadau yn troedio'r llwyfan yn eu tro.

- Joseff o Arimathea, y "disgybl cudd" a roddodd ei fedd ei hun yn fedd i gorff yr Iesu
- y gwragedd, Mair Magdalen a'r Fair arall a ddaeth i'r ardd a sefyll yno yn y distawrwydd ar doriad gwawr, y ddwy heb hawl i fod yno.
- yr angel a ddaeth i lawr o'r nefoedd, ac wedi daeargryn mawr yn symud y garreg o geg y bedd ac yn cyhoeddi bod yr Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.
- a'r prif gymeriad, yr Iesu, y Crist byw a'i gyfarchiad - "henffych well" h.y. llawenhewch. A'i gomisiwn mawr - ar iddynt fynd a dweud wrth y byd ei fod yn fyw.

Dyma ddod â drama oesol y Pasg yn fyw gydag amrywiaeth yn y cyflwyniad, yn cynnwys darlleniadau, gweddïau ac emynau pwrpasol, a'r lluniau a'r gerddoriaeth yn ychwanegu at y naws yn y gwasanaeth yn y Priordy. Llwyddodd yr oedfa drwyddi draw i berthnasu'r ddrama i'n bywydau ni a neges yr efengyl, gan dynnu sylw arbennig at arwyddocâd distawrwydd mewn addoliad a mannau arbennig. Y distawrwydd sy'n gallu esgor ar hiraeth a hwnnw'n brofiad amheuthun. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar bwysigrwydd goresgyn rhwystrau - y meini mae'r byd fel petai wedi'u gosod ar lwybr bywyd, sef ein diffyg ffydd, ein balcher, ein difaterwch - a'r angen i'w symud o'n bywydau fel y daw'r Iesu i'n bywyd i fyw. Ac yng ngeiriau Catrin Alun



Agor ein llygaid
i weled yr Iesu,
i 'mestyn a'i gyffwrdd
a dweud i ni ei garu;
agor ein clustiau
a dysg i ni wrando,
agor ein calon
i nabod yr Iesu.

Da oedd cael gwrando ar ddrama'r Pasg, yn arbennig eleni, drama fawr ei hapêl, dybiwn i, i gynulleidfa Cymru gyfan.

Diolch yn fawr iawn i Lisabeth am yr adroddiad hwn. Daw Lis yn wreiddiol o Bump-heol. Mae hithau a Wil, ei gŵr, yn byw yng Nghaernarfon ac yn dod atom i'r Priordy pan fyddant yn Sir Gâr. Buont yn gwrando ar Radio Cymru ac yn addoli gyda ni ar fore Sul y Pasg.

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher, 20 Mehefin 2018 am 7 yn y Ffestri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

OEDFA HAF CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

gyda'n

GWEINIDOG

Bore Gwener, 22 Mehefin 2018 am 11 o'r gloch



CWRDD A THE AMNEST YN Y TABERNACL

Nos Sul, 22 Ebrill 2018

Trefnwyd y cwrdd unedig hwn mewn cydweithrediad â Chell Amnest Caerfyrddin, Cell Cymdeithas y Cymod, Caerfyrddin, a Chapeli'r Tabernacl a'r Priordy.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Y Parchedigion Peter Cutts a Beti-Wyn.



Amnest Rhyngwladol yw'r sefydliad sy'n ymgychu i sicrhau na chaiff hawliau pobl eu cam-drin ac, os cânt eu cam-drin, i sicrhau y gwneir rhywbeth yn ei gylch. Yn anffodus, mae cam-drin hawliau dynol yn rhemp, a rhoddir llawer yn y carchar oherwydd yr hyn maent yn ei feddwl neu'n ei gredu. Mae Cell Amnest Caerfyrddin yn anfon llythyron a chardiau at y bobl anffodus hyn a hefyd at yr awdurdodau perthnasol yn pwysu arnynt i barchu hawliau dynol.

Anfonwyd cardiau post yn enw pob un ohonom drwy Amnest y tro hwn at yr awdurdodau canlynol: (1) yn Chile lle mae Rodrigo Mundaca ac aelodau eraill o MODATIMA, yn ceisio amddiffyn cyflenwad dŵr trigolion Petorca, un o daleithiau'r wlad rhag gwleidyddion a busnesau sy'n ei echdynnu'n anghyfreithlon gan osod y cymunedau mewn perygl; (2) yn y Ffindir lle mae Sakris Kupila'n cael ei gamdrin oherwydd ei safiad dros hawliau pobl drawsrywiol y wlad; (3) yn Cambodia lle mae Samdech Hun Sen yn gaeth oherwydd ei safiad dros hawliau dynol a (4); yn Llundain gan ofyn i Lywodraeth Prydain helpu i amddiffyn hawliau dynol pobl Palesteina drwy wahardd y Deyrnas Unedig rhag masnachu â'r anedlleoedd anghyfreithlon a gafodd eu creu gan bobl Israel ar diroedd Palesteina drwy orfodi'r brodorion i adael.



Adroddwyd hanes **Rodrigo Mundaca'n** llawn gan Janet Davies, un o aelodau Amnest yng Nghaerfyrddin sy'n addoli yn Eglwys Llangynnwr. Roedd Lyn Cutts, y Tabernacl, wrth y piano.

Mwynhawyd Te Amnest gyda'n gilydd, yn cynnwys cacennau blasus dros ben, a chawsom gyfle i gyfrannu at gostau anfon y cardiau a phrynu cardiau cyfarch hynod o gain o waith Meinir Loader, Heol Awst, gyda'r elw'n mynd at Amnest..



Diolch am gyfarfod mor bwrpasol ac yn arbennig i Iris Owen, y Tabernacl, am ei gwaith trefnu gofalus a manwl..

SWPER YN Y LLEW COCH, LLANDYFAELOG

NOS FAWRTH, 8 MAI, 2018

Cwrdd yn y Llew Coch am 6 a cherdded I Eglwys Llandyfaelog am sgwrs gyda Geraint Roberts

Swper am 7 yn y Llew Coch

Rhowch eich dewis o fwyd i Gareth Gravell cyn gynted â phosib.

Ffôn: 01267 221546 Ebost: gareth.gravell@tiscali.co.uk

Ham, wŷ, pys *(di-gluten) - £7.95

Penfras (Cod) mewn cyteu, pŷs stwnsh *- £10.45

Lleden (plai) mewn briwsion bara, pys stwnsh *- £9.95

Lasagne cig eidion, salad a bara garlleg - £9.95

Lasagne llysiau, salad a bara garlleg - £9.95

Pei stêc a chwrw, llysiau* - £9.95

Cyrrï cyw iâr (medium-spiced), reis, sgloodion a poppadum - £9.95

*dewis o datws newydd, tatws stwnsh, taten bôb, reis neu salad llawn

Dewis o bwdin ar y noson am £4.95

CROESO I BAWB

MIC –DYDDIADAU I'W NODI		
 Bwrlwm Bro	Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin <i>Plant 4-12 oed 10.30-11.45</i>	 20 Mai
Mabolgampau dan do	Gorllewin y Sir	19 Mehefin
Mabolgampau dan do	Rowndiau Terfynol y Sir	11 Gorffennaf
Sul Sbesial	Ysgol Bro Dinefwr	8 Gorffennaf (10.30)
Cwrs leuenctid	Coleg y Bala	30 Gorffennaf – 3 Awst
Souled Out	Coleg y Bala	18-23 Awst

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip,, Eirlys Davies a Heledd Tomos am y lluniau'r mis hwn



Y DIWEDDAR DEWI MORLAIS EVANS

Gyda syndod a siom y clywsom am golli Dewi Evans a fu farw yn ddisymwth yn ei gartref, yr Hen Ardd, Y Llanerch, fore Sadwrn, 21 Ebrill 2018.

Daeth Dewi a'i briod Enid atom wedi datgorffori Capel Bethania, Heol Y Prior, a chawsom ynddynt ddau aelod ffyddlon a theyrngar.

Yn enedigol o Bontmorlais, Llandyfaelog, ymgartrefodd yn Heol Y Prior wedi priodi ag Enid a phrynu yn araf bach ddarnau o dir y tu ôl i'w cartref nes cael digon i godi cartref newydd iddynt hwythau a'u teulu annwyl.

Ac yntau yn saer coed wrth ei alwedigaeth, roedd yn abl iawn â'i ddwylo, ac roedd ganddo ddilêit arbennig yn yr ardd. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio i'r Cyngor Sir ond roedd bob amser hapusaf yn trin coed â'i ddwylo. Roedd yn grefftwr heb ei ail.

Er y tristwch o gau Bethania, croesawyd Dewi ac Enid i'r Priordy â breichiau agored. Prin y collodd oedfa. Roedd yn bresenoldeb tawel a ffyddlon ac yn hynod werthfawrogol. Gwelwn eisiau ei gwmni'n fawr iawn.

Ond sylweddolwn y bydd y golled fwyaf ar yr aelwyd ac yn rhengoedd y teulu. Roedd yn âr, yn dad a thad-cu annwyl a hoffus iawn a oedd yn meddwl y byd o'i deulu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Enid yn ei hiraeth mawr, ac â'r bechgyn, Stephen, Simon a Colin a'u teuluoedd.

Daeth ei deulu a'i ffrindiau ynghyd i Gapel Y Priordy fore Gwener, 4 Mai i oedfa i ddiolch i Dduw am ei fywyd a'i waith. Yn dilyn yr oedfa, rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent eglwys Llandyfaelog.

Coffa da am un o ffyddloniaid tawel Duw.

Beti-Wyn



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Mai		Mehefin	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Sulwyn Thomas		David Lloyd	



BLODAU



Mai	6		Mehefin	3	
	13	Olive Lloyd		10	Meinir Jones
	20			17	
	27	Mair Baston		24	Myfanwy Jones (Abergwili)



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Mai	6	Bore	Margaret Lloyd-Evans ac Eirlys Davies
Mehefin	3	Nos	Miriam Wyrwoll a Carys Morgans



YMWELWYR



Mai / Mehefin	Glenys Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins
---------------	--



DARLLENWYR



Mai	6	Dr Myfanwy Jones	Mehefin	3	Delyth Gwawr Davies
	13	Tim Hayes		10	
	20			17	Adrian Evans
	27	Alison Parsons		24	



CYHOEDDWYR



Mai	Tim Hayes	Mehefin	Catrin H Jones
-----	-----------	---------	----------------



BU'N fis prysur i'n haelodau unwaith eto! Cymerodd Menna Elfyn ran yn y rhaglen **Hiraeth** ar **Radio 4** a fu'n trafod y cysyniad o 'hiraeth' ym marddoniaeth Cymru ac roedd Gwenan Schiavone ymysg y rhai a gafodd eu holi ar **Newyddion 9** ar S4C mewn perthynas ag ailenwi Pont Hafren,



Cafodd Peter Hughes Griffiths, a fu'n flaenllaw yn y trefnu, ei holi ar **Heno** o **Theatr y Ffwrnes** Llanelli ar achlysur cyflwyno Gwobrau Diwylliant cyntaf Sir Gâr. Bu lluniau o'r achlysur yn y **Journal** hefyd ac ymhlith y rhai a gafodd eu hanrhydeddu roedd **Ysgol Farddol Caerfyrddin**, gyda Tudur Dylan Jones yn un o'r grŵp a dderbyniodd y dystysgrif, a Chorau **Ysgol Bro Myrddin**, gyda Mared Owen yn un o'r grŵp a dderbyniodd y dystysgrif.



Bu un o raglenni diweddar **Dechrau Canu Dechrau Canmol** yn trafod pwysigrwydd gweddio a pheth o'r canu'n dod o Gapel Newydd Llandeilo lle gwelwyd nifer o'r Priorddy ymhlith y cantorion. Cafodd Alison Parsons, un o'r cyfarwyddwyr, ei holi ar **Heno** yn dilyn enwebu **Pethau Da** yn y Categori Caffi Bistro yng **Ngwobrau Bwyd Cymru** yng Nghaerdydd. Darllenwyd yn ddiweddarach yn y **Journal** am lwyddiant ysgubol **Pethau Da** yn y Seremoni yn ein prifddinas.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef Y Parchedig W J Edwards, Bow Street, ein cyn-Weinidog, Meinir Lloyd a David Lloyd, Wyn Tegryn Evans a Bronwen Wilkins, Tomos (mab Mari Grug) a Gwenan Haf Jones – dau o blant ein Hysgol Sul. Dymunwn yn dda iddynt i gyd a phawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Ein cofion cynhesaf hefyd at Gwen Davies, sydd yn anhwylyd ac yn aros gyda'r teulu yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, ond yn derbyn **Papur Priorddy** bob mis.

Bu Beti-Wyn yn pregethu yn yr Oedfa Bregethu yng Nghapel Peniel ar achlysur sefydlu'r Parchedig Emyr Gwyn Evans yn weinidog yng Ngofalaeth Broydd Myrddin yn gynharach yn y prynhawn yng Nghapel Ebeneser, Abergwili. Ein dymuniadau da i'r Parchedig Emyr Gwyn yn ei ofalaeth newydd. A dymunwn wellhad buan i'r

cyn-Weinidog, Y Parchedig Emyr Lyn Evans yn dilyn ei driniaeth ddiweddar yn Ysbyty Treforys.

A llongyfarchiadau mawr i Nan Lewis a'i chydweithwyr i gyd ar y cynhyrchiad arbennig, **Dau Hanner Brawd**, a gafwyd yn y Lyric. Roedd tair o'r Priordy'n cymryd rhan a gwelir eu llun yn y Papur hwn!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Tina Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mari Grug a Gareth a'r plant, Steffan a Tomos, sy'n aelodau yn ein Hysgol Sul, Golwg Tywi, Llangynnwr, ar golli mam-gu Mari a hen fam-gu'r plant, sef Beti Davies, Mynachlog-ddu, ar 26 Mawrth 2018. Anfonwn ein cofion cynnes at y teulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar.

Dymunwn gydymdeimlo â Tegwen Davies, Erw Hir, un o Gyfeillion yr Achos yn y Priordy, ar golli'i hunig chwaer Eileen James, Bryn Iwan (gynt o Flaencowin), ar 10 Ebrill 2018. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Meddyliwn hefyd am Miriam Wyrwoll, Erw Hir, a gollodd ei brawd-yng-nghyfraith, Graham Jones (brawd y diweddar Barchedig Emyr Huw Jones), Tymbl Uchaf ar 19 Ebrill 2018. Ein cofion at y teulu oll ar yr adeg anodd hwn.

A thrist yw nodi fod Ivor Evans, Parc y Bryn, ac Ann Griffiths, Llys Sant Ioan, wedi colli cefnder yn ddiweddar, sef Evan Gwyn Evans, Llandudno a chynt o North Lodge, Pennant. Anfonwn ein cofion cywir at y teulu yn eu hiraeth.

CRISTION



Cyhoeddir bob deufis gan bwyllgor aml enwad o eglwysi Anghydffurfiol ac Anglicanaidd. Mae'n cynnwys erthyglau ar destunau Cristnogol yng Nghymru, eitemau newyddion, adolygiadau o lyfrau, llythyron a chystadlaethau.

Pris: £1.50 Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas




Y SULLADUR



Mai	6	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	13	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Y Parchedig T Evan Morgan Oedfa Undebol i'r Ofalaeth ym Manycyfelin am 2 gyda'r Parchedig T Evan Morgan	
	20	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Cwrdd Pregethu Capel Heol Awst am 3 gyda'r Parchedig John Gwilym Jones	
	27	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	

Mehefin	3	10.5	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	10	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i> <i>Hwyr</i>	Pererindod yr Ofalaeth. Gweler y tu mewn	
	17	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Y Parchedig Jill-Hailey Harries Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Jill-Hailey Harries	
	24	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog pan fydd Cymdeithas Dydd yr Arglwydd yn ymuno â ni Gŵyl Hirddydd Haf ym Mharc y Dref am 4.30 gyda'n Gweinidog	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC							
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant							
Mai				Mehefin			
6	13	20	27	3	10	17	24
✓	✓ PIP	CP	-	✓ PIP	-	✓	CP


**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R
BLWCH TOPIAU POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**